

**2012 Rhif (Cy. )**

**Y GWASANAETH IECHYD  
GWLADOL, CYMRU**

Cyfarwyddiadau (Dirymu)  
Cyfarwyddiadau Cydwasanaethau  
GIG Cymru 2011 2012

*Gwnaed*

*30 Mai 2012*

*Yn dod i rym*

*1 Mehefin 2012*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 12, 13 19 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1) yn gwneud y Cyfarwyddiadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1. Enw'r cyfarwyddiadau hyn yw Cyfarwyddiadau (Dirymu) Cyfarwyddiadau Cydwasanaethau GIG Cymru 2011 2012 a deuant i rym ar 1 Mehefin 2012.

2. Mae'r cyfarwyddiadau hyn yn gymwys i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol.

**Dehongli**

3. Yn y cyfarwyddiadau hyn—

ystyr “Byrddau Iechyd Lleol” (“*Local Health Boards*”) yw'r Byrddau Iechyd Lleol a sefydlwyd gan adran 11 o'r Ddeddf;

ystyr “y Cyfarwyddiadau” (“*the Directions*”) yw Cyfarwyddiadau Cydwasanaethau GIG Cymru 2011(2);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr “Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol” (“*National Health Service Trusts*”) yw Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a sefydlwyd yn unol ag adran 18 o'r Ddeddf.

---

(1) 2006 p.42. Nid oes diwygiadau perthnasol.

(2) 2011 Rhif 13.

## **Dirymu**

4. Mae'r Cyfarwyddiadau wedi eu dirymu

[llofnod]

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,  
un o Weinidogion Cymru

[ ] Mai 2012